# Atodiad 1

**Mesurau'r Cyng. Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi a Chymuned**

| Gwasanaeth | Mesur - diffiniad | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynu Corfforaethol | **Caff06d**- Canran gwariant y Cyngor gyda busnesau lleol | 40.33 | 40.42 | Ffigwr i'w gadarnhau | Mae'r Adran yn gweithio gyda chwmni Atamis a'r Uned Gyllid er mwyn cael ffigwr terfynol. |
| Twristiaeth Marchnata a Gofal Cwsmer | **TMGC4**- Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | £4,666,626 | £4,814,867 | £5,928,034.00 | Adrodd yn flynyddol |
| Adran Economi a Chymuned | **Uchel 07**- Nifer y swyddi gwerth uchel wedi'u creu | - | 34 | 35 | 10 |
| Adran Economi a Chymuned | **PENECON01** - Nifer y swyddi wedi eu creu gyda chymorth yr Adran Economi a Chymuned | Newydd i 2014-15 | 234.5 | 81 | 17 |
| Uned Strategaeth a Datblygu | **GW01 -** Buddsoddiad wedi ei sicrhau i ddatblygu mentrau gwledig arloesol Gwynedd | - | - | - | Adrodd yn chwe-misol |
| Uned Strategaeth a Datblygu | **SD08 -** Buddsoddiad i'r Sir drwy lawr prosiectau | £4,332,108 | £1,255,00 | £3,241,616 | £1,301,928 |
| Adfywio Cymunedol | **Adfyw01 -** Canran Prosiectau Adfywio a gefnogir sy'n hyfyw/gynaliadwy ymhen 3 blynedd | - | - | - | Adrodd yn flynyddol |
| Uned Twristiaeth a Marchnata | **YRE1**- Nifer busnesau'r Sir yn adrodd iddynt ddefnyddio technoleg (e.fusnes / e.fasnachu) o ganlyniad i ymyrraeth Gwynedd Digidol | - | - | 36 | Adrodd yn chwe-misol |

**Sylwadau/Naratif ar ffigyrau:**

| | |
|---|---|
| **TMGC4** | Mesurydd yn adrodd yn flynyddol. Y cynllun wedi ymrwymo i gefnogi 18 o ddigwyddiadau yn ystod 2016/17 gan gynnwys digwyddiadau strategol, megis Gŵyl Rhif 6 a Phencampwriaeth Lawr Allt Cymru ynghyd â digwyddiadau ar hyd a lled Gwynedd megis yr Red Bull Hardline yn Ninas Mawddwy, Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol 2016 yn Nhywyn a Llanc y Llechi yn Llanberis. |
| **Uchel 07** | 10 swydd gwerth uchel newydd wedi eu creu gan gwmni Nmi Gaming (www.nmi-gaming.com) sydd yn rhan o glwstwr byrlymus o fusnesau technoleg wedi eu lleoli ym Mharc Menai sydd yn cyflogi oddeutu 200 oll yn oll. Y cwmni, a'r clwstwr, yn derbyn cefnogaeth drwy law'r rhaglenni Swyddi Gwerth Uchel a Gwynedd Ddigidol. |
| **PENECON01** | Yn unol â'r disgwyl cyfanswm y swyddi a chrëir gyda chymorth yr Adran yn gostwng o ganlyniad i fod rhaglenni sylweddol megis y Gronfa Fuddsoddi Leol yn dod i ben. Fodd bynnag yr Adran yn parhau i gynnig ystod o gefnogaeth i fusnesau'r Sir gan gynnwys hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael drwy law ffynonellau megis Busnes Cymru. |
| **GW01** | Mesurydd yn adrodd yn chwe-misol. Ystod o weithgaredd yn y maes yn derbyn cefnogaeth gan gynnwys detholiad o gynlluniau arloesol drwy law Arloesi Gwynedd Wledig (www.arloesigwyneddwledig.com) megis treialu wi-fi cyhoeddus dan reolaeth y gymuned fusnes lleol yn Aberdaron, sut i gael y gorau o gyllid torfol a chefnogi pobl ifanc lleol i gael profiad o - a hyrwyddo - y cyfleodd cyffrous sydd ar gael yn y sector digidol yng Ngwynedd. |
| **SD08** | Adnoddau ychwanegol o Raglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru (rhaglen Glannau Caernarfon) a Chymunedau i Waith Llywodraeth Cymru (cefnogaeth i'r di-waith yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf). |
| **Adfyw01** | Mesurydd yn adrodd yn flynyddol. Y Tîm Adfywio Cymunedol yn gweithio gydag ystod eang o brosiectau ar hyd a lled Gwynedd gan gynnwys prosiectau i ystyried dulliau newydd o ail-ddefnyddio asedau'r Cyngor a chefnogi cymunedau i ddarparu gwasanaethau o fewn eu cymuned leol. |
| **YRE1** | Mesurydd yn adrodd yn chwe-fisol. Rhaglen Cyflymu Cymru i Fusnesau yn weithredol yng Ngwynedd gan ddarparu ystod o gymorth i fusnesau lleol fanteisio o'r cyfleoedd yn deillio o'r ddarpariaeth o fand eang cyflym yn y Sir gan gynnwys gweithdai, cymorth un i un a deunyddiau ar y we. Targed i gefnogi o leiaf 94 o fusnesau yn lleol yn ystod 2016/17. Nifer o astudiaethau achos o fusnesau yng Ngwynedd wedi eu datblygu eisoes gan y cynllun (wele <https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym>). |